Arolwg Sbwriel

Eco-Sgolion
Eco-Schools

Paratoi a sut i godi sbwriel



Bydd angen grwpiau o bedwar arnoch:

- un ar gyfer y casglwr sbwriel
- un ar gyfer y bag sbwriel
- un ar gyfer y bag ailgylchu
- un ar y daflen gyfrif isod

Nodyn: gwnewch yn siŵr eich bod yn cylchdroi'r grŵp drwy gydol y gweithgaredd. Os ydych chi'n casglu sbwriel o fewn eich ysgol, bydd angen rhoi'r gwastraff a gasglwyd yn biniau'r ysgol. Sylwer bod gwahanu'r eitemau yn cael ei wneud at ddibenion dangos yn weledol; efallai na fydd yr holl ddeunyddiau ailgylchu a gasglwyd yn ddigon glân i'w hailgylchu yn yr ysgol.

Adeiladu eich data

Er bod yr holl sbwriel fel arfer yn cael ei waredu fel gwastraff, bydd gwahanu'r gwastraff a'r deunyddiau ailgylchu i ddau fag ar wahân wrth i chi gasglu, yn eich helpu i ateb ar eCyfrif Cymru:

- Sawl bag sbwriel wnaethoch chi eu casglu?
- Sawl bag ailgylchu wnaethoch chi eu casglu?

Os ydych chi'n casglu sbwriel y tu allan i'ch ysgol, gallwch ofyn am fagiau coch gan Cadwch Gymru'n Daclus a threfnu iddynt gael eu casglu, yn hytrach na'u rhoi ym mhiniau'r ysgol. Mae'n dal yn werth casglu eich sbwriel a'ch deunyddiau ailgylchu ar wahân, fel y disgrifir; mae hyn yn ddefnyddiol at ddibenion arddangos gweledol, yn ogystal ag ar gyfer ateb cwestiwn eCyfrif Cymru.

Creu effaith

Gan ddefnyddio eich taflen gyfrif:

- Uwchlwythwch eich data i eCyfrif Cymru er mwyn iddo ymddangos ar Fap Effaith Gymunedol Cadwch Cymru'n Daclus.
- Nodwch pa fathau o sbwriel a ddarganfuoch, er mwyn llywio eich ymgyrch i newid ymddygiad (gweler yr adnodd ychwanegol).
- Cynhaliwch sesiwn casglu sbwriel arall ar ôl eich ymgyrch codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, er mwyn mesur yr effaith ac asesu a oes angen gwneud mwy neu fabwysiadu dull gwahanol.

Arolwg Sbwriel

Eco-Sgolion
Eco-Schools

Eitem Sbwriel	Rhif - Cofnodi trwy Gyfrif Tali
Plastig - potel ddiod	
Can – can ddiod	
Cap / caead potel blastig – plastig caled bach	
Papur melysion plastig	
Paced Creision	
Bag plastig / bag bwyd	
Ffoil tun	
Potel wydr	
Gwelltyn plastig	
Papur / cardbord	
Gwelltyn papur	
Gwm cnoi	
Baw ci	
Casyn sigarét	
Eitem arall	
Os gwnaethoch farcio ‘eitemau eraill’, beth a ddaethoch o hyd iddo?	